

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Alwyn E Jones

Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Rhagfyr 4ydd, 2018

Presennol: Alwyn E Jones (Cadeirydd), Rhodri Jones, (Is-gadeirydd), Huw Antur, Lindsey Ellis-Edwards, Arwel Lloyd Jones, Dewi Jones, Heledd Jones, Karl Jones, Huw P Roberts

Alan Jones Evans, (Cyngorydd Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

Ymddiheuriadau: Beryl Hughes Griffiths, Alwyn Roberts

Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

1935 Croesawyd pawb gan y Cadeirydd a llongyfarchodd Dewi a Siwan Jones ar enedigaeth Mabli. Roedd y Cyngor wedi edrych ymlaen at ddathlu pen-blwydd arbennig iawn gyda Mrs Oleuli Roberts, ond a fu farw diwrnod cyn ei phen-blwydd yn 100 oed. Cyflwynwyd rhodd y Cyngor Er Cof i'r teulu.

1936 Buddiant: Derbyniwyd datganiadau buddiant ym mater 1928i gan Alwyn E Jones, Dewi Jones ac Arwel Lloyd Jones.

1937 Cofnodion: Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Tachwedd 6ed, 2018.

1938 Materion y Clerc / materion yn codi o'r Cofnodion :

- i. Derbyniwyd adroddiad y Clerc o gyfarfod brys am yr Wyl Triathlon a llythyr gan y Trefnwyr yn amlinellu'r trefniadau. Ar ôl trafodaeth, cytunwyd na ellid cefnogi'r cais i gau'r ffyrdd ar y ddau ddiwrnod ar benwythnos 29 - 30 Mehefin 2019. Dywedwyd y byddid yn barod i ail-edrych ar y penderfyniad pe byddai'r ffordd ar gau ar y dydd Sul yn unig, a system effeithiol o reoli trafniadaeth ar ffordd Llanygerw mewn lle. Alwyn E Jones ac Alan Jones Evans fydd yn cynrychioli'r Cyngor yng nghyfarfod yng Nghanolfan Henblas am 7.00pm nos Fercher 19/12/18.
- ii. Lleoliad cyfarfodydd y Cyngor: diolchwyd i swyddogion yr Ysgoldy am gael defnyddio'r adnoddau ar gyfer cyfarfod mis Tachwedd. Cytunwyd i gynnal cyfarfodydd yno yn y dyfodol pe byddai angen defnyddio'r offer neu pe byddid yn disgwyl siaradwyr gwadd.

1939 Cyngor Gwynedd: Derbyniwyd Adroddiad y Cyngorydd Sir, Alan Jones Evans. Y mae ef, gyda chefnogaeth y Cadeirydd, wedi cynnal nifer o gyfarfodydd gyda gwahanol swyddogion yn y pentref yn ddiweddar

Mae Gwaith yn dal i fynd ymlaen i edrych mewn i'r bwriad o addasu cefn y lloches bws yn Heol yr Orsaf at bwrpas parcio a mwynderau – mae Staff y Cyngor yn cydweithio a chynghori ar agweddau peiranyddol y gwaith yma. Bydd Cyngor Gwynedd yn helpu i glirio gordyfiant yn ffos y ffatri, Heol yr Orsaf, ac yn rhoi grating newydd

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Alwyn E Jones

yno i gymeryd y dwr. Bwriedir ail wynebu'r safle lle mae'r plant yn disgwyl y bws er mwyn cael gwared ar y pwll dwr syn crynhoi yma ar lawiad trwm.

Bydd gwaith yn cael ei wneud i ail ddiffinio safleoedd bws gyferbyn â'r Eglwys ac wrth Heol yr Orsaf er mwyn atal parcio ar y safleoedd hyn.

Mae gwaith hefyd wedi ei wneud i lanhau'r ardal wrth y Felin lle mae'r bws yn troi'n ôl.

Mae Cyngor Gwynedd wedi rhoi cychwyn ar y broses gyfreithiol o ychwanegu llinellau melyn ar fynedfa Maesypanyd er mwyn gwella'r gwelededd. Talwyd teyrnged i Swyddogion Cyngor Gwynedd am eu parodrwydd i wrando a chydweithredu.

Mae disgwyl ymateb pellach gan Gartrefi Cymunedol Gwynedd i wella adnoddau parcio ym Maesypanyd.

Adroddodd y Cyngorydd ymhellach fod swyddogion Parc Cenedlaethol Eryri yn edrych mewn i berchnogaeth a chyflwr Bronant Stores.

Cadarnhawyd fod y biniau halen yn cael eu llenwi ar unwaith ar gost y Cyngor Cymuned allan o Braesept trigolion yr ardal. Er fod Cyngor Gwynedd yn cyflenwi'r halen i'r Cyngor Cymuned am bris gostyngedig, dim ond un waith yn y flwyddyn y gall y Cyngor Cymuned fforddio eu llenwi, felly disgwylir y bydd defnydd priodol a darbodus yn cael ei wneud o'r halen.

Diolchwyd i'r Cyngorydd Alan Jones Evans am ei waith.

1940 Pwyllgor Ardal Un llais Cymru: diolchwyd i Huw P Roberts am ei adroddiad pryd y canolbwyntiwyd ar faterion risg ac yswiriant. Cafwyd trafodaeth ar BDO a'r problemau sy'n gyffredinol drwy'r ardal gyda'r cwmni hwn. Dywedodd y Clerc ei bod wedi ymateb i ymholiad Helen Mary Jones AC ar y mater. Prif destun trafodaeth y cyfarfod nesaf fydd y gwasanaeth Ambiwlans.

1941 Materion Eiddo'r Cyngor: Derbyniwyd Adroddiad Karl Jones a rhoddwyd hawl iddo fynd tu hwnt i'r ardal leol i geisio prisiau ar gyfer adnewyddu'r toiledau. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n ceisio cael hyd i gwmni sy'n darparu drysau sy'n agor wrth dalu.

1942 Trefniadau gweithgareddau'r Cyngor:

- i. Goleuo'r goeden - mae'r trefniadau gyda'r ysgol gynradd yn dibynnu llawer ar y tywydd. Diolchwyd i Karl Jones a Gwion Alwyn am gytuno i osod y goeden yn ei lle.
- ii. Noson Goffi - Cytunwyd ar nos Fercher 13/2/19. Cytunwyd ar restr fer o enwau o bobl i'n diddanu.

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn Cadeirydd: Alwyn E Jones

- 1943 Materion lleol:** adroddwyd fod y fynedfa wrth yr ysgol yn gorlifo ar dywydd gawr, ac addawodd Alan Jones Evans dynnu sylw Adran y Priffyrdd at y mater.
- 1944 Partneriaeth Penllyn:** derbyniwyd adroddiad y Cynrychiolwyr, Huw Antur ac Alwyn E Jones. Mae trefniadau mewn llaw ar gyfer defnyddio'r Henblas ar y noson Siopa Hwyr a hefyd ar gyfer darparu pob math o gyngor ar gyfer yr henoed ym mis Ionawr. Mae pob swyddfa yn llawn. Disgwylir ymateb gan swyddogion Cyngor Gwynedd ar faterion y gellid eu datganoli, a dywedodd Dewi Jones fod y mater yn cael ei drafod ar lefel y Cabinet ar hyn o bryd.
- 1945 Gohebiaeth:** Darllenwyd llythyr Howard Huws, Cylch yr Iaith gyda chydymdeimlad a chytunwyd i anfon cefnogaeth y Cyngor i'w gynnwys at Gyngor Gwynedd ac at Barc Cenedlaethol Eryri.

Cadarnhawyd dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: 8/1/18 yn y Neuadd Bentref am 8.00 o'r gloch.